Kirsty Williams
AC Brycheiniog a Sir Faesyfed
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

26 Mawrth 2010

Annwyl Kirsty

**WAQ55857 – A wnaiff y Gweinidog roi manylion, gan roi ffigurau ar gyfer pob adran, faint y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar (a) hysbysebu ac (b) ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn ers 1999.**

Diolch am eich Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad ynghylch costau hysbysebu ac ymgynghorwyr.

Byddaf yn ysgrifennu llythyr pellach atoch cyn gynted â phosibl ar gostau hysbysebu a chaiff copi o'm llythyr ei gyhoeddi ar y rhyngrwyd.

O ran y swm a wariwyd ar ymgynghori, gallaf roi gwybod i chi i Lywodraeth y Cynulliad wario cyfanswm o £11.2m yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09 ar ymgynghorwyr allanol. Ni allaf roi ffigurau cyson ar gyfer y blynyddoedd blaenorol am y rhesymau a nodir isod:

- cafodd Adrannau eu hailstrwythuro'n sylweddol o fewn Llywodraeth y Cynulliad o ganlyniad i brosesau uno, Deddf Llywodraeth Cymru a newidiadau Gweinidogol;
- cafwyd newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae gwariant ar ymgynghori yn cael ei ddosbarthu. Mae Llywodraeth y Cynulliad bellach yn diffinio costau ymgynghori ar ffurf sy'n gymaradwy ag

Adrannau eraill y Llywodraeth, gan ddefnyddio'r diffiniad a luniwyd gan Drysorlys EM sy'n adlewyrchu natur contractau ymgynghori yn well;

- roedd y ffordd y cafodd gwybodaeth ei chasglu a'i chofnodi yn wahanol mewn blynyddoedd blaenorol. Mae ein systemau bellach yn canolbwyntio ar gasglu data sy'n unol â'n diffiniad diwygiedig a byddai'n rhy gostus ailddosbarthu'r gwariant yr aed iddo cyn 2008-09.

Llywodraeth y Cynulliad sy'n cadw'r wybodaeth sy'n ymwneud ag achlysuron penodol o gyflogi cwmnïau ymgynghori dros y 10 mlynedd diwethaf, ond nid mewn un lleoliad canolog. Byddai casglu'r wybodaeth hon yn golygu gwaith i echdynnu gwybodaeth o brif ddogfennau gan gynnwys e.e. anfonebau sy'n cynnwys amryw drafodion ar draws pob Adran a byddai'n fwy na'r terfyn amser priodol a nodwyd i ymgymryd â'r gwaith hwn.